Adroddiad Cynhadledd Llywodraethwyr Gogledd Cymru
Dydd Iau 5 Tachwedd 2009
Venue Cymru, Llandudno

Thema: *Y Corff Llywodraethu Effeithiol*

Cytunwyd ar thema'r gynhadledd gyda Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr AALl Gogledd a Chanolbarth Cymru yng nghyfarfod rhanbarthol Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr ym mis Mawrth 2009 yn dilyn llwyddiant y canllaw tri rhan ar y Corff Llywodraethu Effeithiol a gyhoeddwyd yn gynnar yn y flwyddyn.

Daeth **120** o bobl o Ogledd Cymru a Phowys i'r gynhadledd.

Cadeiriwyd y gynhadledd gan Mrs Carol Sayce, Cadeirydd Llywodraethwyr Cymru, a chyflwynodd y prif siaradwyr: Dr. Bill Maxwell a Mr. Richard Parry Jones.

Siaradodd **Dr. Maxwell** am bwysigrwydd y ffaith bod llywodraethwyr a thimau arweinyddiaeth yn adnabod beth y mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella. Os yw hunan werthuso yn gadarn ac yn adlewyrchu cryfderau a meysydd gwelliant ar gyfer yr ysgol, yna dywedodd mai'r unig beth oedd ei angen gan arolwg allanol oedd 'cyffyrddiad ysgafn'. Ond lle roedd gwahaniaeth rhwng hunan werthusiad ac arsylwadau arolwg yna byddai angen ymchwiliad manylach a gweithgarwch dilynol.

Rhoddodd 4 o gynhwysion allweddol i system welliant ansawdd cenedlaethol effeithiol:

- **data perfformiad o ansawdd uchel** – data meincnodi cenedlaethol ar fewnbwn a chanlyniadau allweddol
- fframwaith ehangach o **ddangosyddion ansawdd cenedlaethol** – gyda chefnogaeth i'w defnyddio mewn hunan werthusiad
- gweithlu proffesiynol o **ymarferwyr myfyrgar**
- **gwerthusiad ac adolygiad allanol** cadarn

Tri Cwestiwn Allweddol i'w gofyn yn ystod hunan werthusiad ac arolwg:

Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?
• Arweinyddiaeth * gweithio mewn partneriaeth * gwelliant ansawdd * rheolaeth adnoddau

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

• Profiadau dysgu • Addysgu • Gofal, cefnogaeth ac arweiniad • Amgylchedd dysgu (corfforol a chymdeithasol)

Yn arwain at

Pa mor dda yw canlyniadau dysgwyr?
• Safonau • Lles

Pwysleisiodd bwysigrwydd y fframwaith Arolygu newydd a'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion, o ran bod yn rhyng-ddibynnol yn hytrach na phethau yn sefyll ar eu pennau eu hunain.

Gorffennodd trwy amlinellu'r camau nesaf, yn arwain at weithredu'r fframwaith newydd ym mis Medi 2010:
- Treialu arolygon newydd o'r Hydref hwn ymlaen
- Cwblhau modelau yn gynnar yn 2010
- Hyfforddiant yn nhymor yr Haf 2010
- Cyhoeddi canllaw i ysgolion ar y drefn arolygu newydd a sut i hunan werthuso trwy ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd
- Gweithio gyda'r tîm Fframwaith Arolygu Ysgolion i ddarparu 'pecyn cymorth' manwl yn adeiladu at set o offer archwilio datblygiadol ar agweddau allweddol o arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Arolygon newydd yn cychwyn ym mis Medi 2010

Siaradodd Mr. Richard Parry Jones am rôl yr AALl o ran gweithio gyda llywodraethwyr a phartneriaid eraill i ddatblygu effeithlonrwydd ysgolion. Darperir crynodeb byr isod:

Amlinellodd Mr Parry Jones yr egwyddorion cyffredinol:

1. Anelu at greu system addysg o'r radd flaenaf i Gymru
2. Gosod y dysgwr yn y canol gyda hawl i gyfle cyfartal, cyrhaeddiad a lles fel y prif nod
3. Angen adnabod, datblygu a lledaenu ymarfer da trwy bartneriaethau effeithiol
4. Dylai cefnogi staff ysgol i ddatblygu addysg effeithiol fod yn brif amcan
5. Dylai datblygu hyrwyddwyr ac eiriolwyr effeithiol i'r dysgwyr mwyaf bregus fod yn ganolog i bartneriaethau

Amlinellodd y pum amcan allweddol i'w cyflawni:

1. Creu cytundeb ynglŷn â chyfeiriad polisi a strategaeth ar gyfer ei gyflwyno
2. Gosod set cyson a chyffredin o ddisgwyliadau yn seiliedig ar y defnydd o setiau data craidd a Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol a lleol
3. Derbyn a gweithredu galluoedd priodol ar gyfer arweinyddiaeth, cefnogi a monitro perfformiad ar bob lefel
4. Datblygu fframwaith cyffredin ar gyfer sicrwydd ansawdd sydd yn cyflwyno atebolrwydd i gyrhaeddiad a lles dysgwyr
5. Creu system i gynnal a chefnogi ymarferwyr dosbarth trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus a strategaethau i ledaenu ymarfer da

Dywedodd Mr Parry Jones bod amrywiaeth mawr ar hyn o bryd mewn perfformiad rhwng sefydliadau addysgol sydd yn gweithredu mewn cyd-destun cymdeithasol

economaidd tebyg. Awgrymodd hefyd bod amrywiaeth mawr yn y gefnogaeth allanol oedd ar gael i ysgolion yn ogystal ag amrywiaeth cenedlaethol a lleol mewn cyllido. Mae anghysondeb hefyd wrth ddehongli rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd.

Mae'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion yn rhoi cyfle i Lywodraeth y Cynulliad, AALl, Penaethiaid, Llywodraethwyr ac eraill i ffurfio partneriaethau a fydd yn siapio ac yn datblygu polisi a strategaethau addysg cytun i gyflwyno'r pum amcan uchod. Cyflawnir cyfraniad AALl at hyrwyddo a chynnal y bartneriaeth leol trwy:

- Datblygu a chryfhau'r gefnogaeth sicrwydd ansawdd a herio timau trwy gydweithio o fewn consortia rhanbarthol i gynyddu gallu, cryfhau arbenigedd a chreu cost effeithlonrwydd wrth gyflwyno
- Sicrhau cydweithio a chyfraniad partneriaethau lleol sydd â rôl a dylanwad yng nghyrhaeddiad a lles dysgwyr o fewn cyd-destun CYPP;
- Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd i sefydliadau gefnogi ei gilydd trwy'r cyfnod o newid;
- Gweithredu fel hyrwyddwyr dros hawliau'r dysgwyr mwyaf bregus;
- Amddiffyn a sicrhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau llinell flaen i alluogi ymarferwyr dosbarth i weithio'n effeithiol;
- Cyfrannu at yr ymdrech i gael cysondeb o ran ymarfer a pherfformiad trwy arweinyddiaeth system effeithiol

Dewisodd y llywodraethwyr ddau weithdy i'w mynychu allan o'r pedwar canlynol:

Amddiffyn Plant (wedi'i hwyluso gan Orina Pritchard a'r tîm o Wynedd)

Rheoli Cwynion (Steve Gullick, Canolfan Cymru Gyfan, Abertawe)

Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion, y diweddaraf (Richard Matthews, APADGOS)

Arolwg Estyn (Jeff Jones, Estyn)

Cafwyd niferoedd a thrafodaethau da ym mhob gweithdy yn ogystal ag adborth ardderchog.

Daeth y gynhadledd i ben mewn sesiwn lawn gyda phanel o hwylyswyr y gweithdai yn ateb cwestiynau gan lywodraethwyr.

Mae copïau o'r sleidiau ar gael yn : www.governorswales.org.uk